

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala: 6ed o Fedi 2012

870. Presennol: Miss Shan Ranson, y Maer, Alun Price, Dilwyn Jones, John C Williams, Cyng Sir. Dilwyn Morgan, Ivora Jones, Islwyn Pritchard Jones, Sharon Wyn Evans, Dorothi Evans, Dilys Evans, Edith Roberts, Eluned Jones, Eifion Roberts ac ymwelwyr Lis Puw a Huw Antur.

871. Ni ddatganwyd buddiant

872. Darllenwyd cofnodion cyfarfod 26ain o Orffenaaf 2012 a derbynwyd yn gywir.

873. Croesawyd Huw Antur ac Mrs Lis Puw ar ran Partneriaeth Penllyn. Cafwyd crynodeb o'r gwaith mae y Partneriaeth wedi eu wneud ers sefydlu tua 3-4 mlynedd erbyn hyn. Mae y Partneriaeth yn ceisio bod yn llais cryfach dros Penllyn. Erbyn hyn mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu sefydlu Fforymau ardal /Bro. Mae nhw wedi body n llwyddianus o derbyn grant ac un o amcanion y Partneriaeth yw i weld gwasanaethau yn dod yn nol i'r ardal ac yn ceisio cael canolfan er mwyn cael cyrff cyhoeddus yno ac gobeithio caiff cyrff gofal a lles ddod, i rhoi gwybodaeth, help i deuluoedd, bobl bregus a lle i cael cyngor. Mae grwpiau wedi mynegu diddordeb mewn cael presenoldeb yma. Meant eisioes yn trefnu gwasanaethau edrych ar ol llwybrau cyhoeddus, dodrefn stryd, caeau plant a toiledau ac yn Ebrill nesaf byddant yn debyg o gorfod bod yn ddarparwyr ac nid yn asiant yn unig ac felly angen "clerk of works" i fod yng ngofal tendrau ac yn y blaen. Diolchwyd iddynt am adrodd yr hanes ac yn dymuno yn dda iddynt ar yr adeg cyffroes yma ac yn diolch am eu holl waith caled.

874. Materion yn codi o'r cofnodion:

Canolfan Bro Tegid – Wedi derbyn Trwydded/Brydles paswyd i beidio arwyddo ar hyn o bryd, angen holi rhai cwestiynau.

Tomen y Bala - Edrych ar prisiau am y gwaith ar y llwybrau a llenwi gwrychoedd ond rhaid aros am y dogfenau gan CADW cyn cychwyn. Paswyd i dderbyn y pris isaf felly Gwilym Edwards fydd yn ymgymeryd y gwaith .

Arosfa Bws – Nid oedd y swyddog o'r adran gludiant ar gael heno, ond wedi cynnig cyfarfod cynghorwyr i drafod ar y safle.

Siambr – Gofynwyd i Cyngor Gwynedd os oedd ganddynt eiddo/dodrefn yn yr adeilad, cafwyd cadarnhad caiff Cyngor Tref wneud defnydd ohono a'i glirio er mwyn cael yr adeilad yn wag.

875. Materion Cynghorydd Sir, Dilwyn Morgan

Arwyddion 30mya fflachio – Mae ein pryderon am goryrru ar y "bypass" B4391 wedi eu nodi ond nid oes cyllid gan y Cyngor. Mae peiriant mesur cyflymder yn mynd i gael eu osod i gasglu tystiolaeth. Os bydd yn ymddangos bod goryrru bydd yr heddlu yn awyddus i orfodi'r cyfyngiad yno.

LLinellau melyn Heol Tegid – Mae cwynion wedi dod i law nad yw y marcio fel cytunwyd, y cynghorydd yn gofyn am copi o'r plan derbynwyd i fynd ar ol y mater.

876. Materion yr Heddlu:

Wedi derbyn nodyn nad oedd swyddog ar gael i fod yn bresennol heno

LLythr Mark Armstrong – yn dilyn ein cyfarfod diweddar ac eu ymchwiliadau ynglun a camera nid oes arian ar gael ond am edrych ymhellach i'r mater. Cadarnhau fel yr uchod ynglun y goryrru ger ardaloedd Penybont/parc diwidiannol.

Ebost am ymgyrch Sodium – datganiad gwybodaeth am lansio ymgyrch codi ymwybyddiaeth o beryglon yfed/cymeryd cyffuriau

877. Materion Cynllunio:

Wedi cael ein hybysu gan y Parc bod caniadatad i cais - Stabl, Craig y Fron ac cais am estyniad unllawr, 1 Heol Arenig

Derbynwyd llythyr gan Bryan Davies yn ein hysbysu bydd y Clwb Rygbi yn gwneud cais am godi Ffreutur i'r Clwb Rygbi er mwyn i'r plant cael bwyd cynnes ar ol chwarae

878. Materion Cyllid:

- i. Archwiliad – y cyngor yn cadarnhau derbyn ac ystyried adroddiad yr archwiliad allanol cyn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol. Y Cadeirydd yn llofnodi a dyddio adran 3.

- ii. Vodafone – cymeradwyo i'w dalu
- iii. G. Edwards – bil am lladd gwair ar y Domen – cymeradwyo iw dalu, trefu iddo tocio gwrychoedd y Domen
- iv. Canolfan Bro Tegid – bil am llogi ystafell i'r cyfarfodydd – cymeradwyo
- v. Rhestr Asedau – Wedi eu basio ymlaen dim i adrodd nol tro hyn.

879. Gohebiaeth:

Cyngor Gwynedd – Swyddog Datblygu iaith – manylion am cynllun cyfiethu
 “
 - Llywodraethwyr ar ran Cynghorau Tref/Cymuned
 - Gorchymyn cau ffordd A494 9.30yn tan 1.30 Dydd Sul 9fed o Fedi Treiathlon y Bala
 - Gwahoddiad y cyfarfod ar 18 o Fedi, cynnig efallai byddai yn syniad I John C Williams fynd fel ein cynrychiolydd isbwyllgor “Pobl Hyn”
 - CAB Gwynedd – gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol Cyngor ar Bopeth(Citizens Advice Bureau) yn Mhwlleli ar 18 o Fedi 2012.
 - Gwahoddiad Cynhadledd Trawsnewid Anabledd Dysgu ar 8/10/12

Unllais Cymru – ebost Deddf Cydraddoldeb
 “
 - agenda pwyllgor Meirionnydd - arolwg trafndiaeth ar y we
 “
 - Holiadur ymchwil
 “
 - adroddiad Cynrychiolydd Unllais Grwp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid ar y we

Cymdeithas Tai Clwyd – Adroddiad Blynyddol 2011/12
 Parc cenedlaethol – Cais tir ger Plas yn Dre, llythr hysbysiad fel deilydd y Siambr
 Panel Annibynol Cymru am Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad draft ar gyfer 2013/4
 Llywodrath Cymru – ebost gweithredu ar Trechu Tlodi 2012 -16
 Catalog goleuadau nadolig – edrych ar trefniadau Nadolig cyfarfod nesaf
 Dyslecsia Cymru, Shelter ac Hafan Cymru pamffledi gwybodaeth a ceisiadau arian – edrych arnynt yn Chwefror
 Society of Local Council Clerks – cynnig ymaelodaeth arbennig paswyd I'w adael gand fod Unllais Cymru yn rhoi cymorth tebyd pan mae angen

880 Materion Brys

Gofynwyd i'r clerc anfon llythr ar y Co-op yn gofyn iddynt ofyn i staff beidio parcio o flaen y siop trwy'r dydd wnawn hefyd ac edrych parcio cyffredinol cyfarfod nesaf

We received a visit from two representative from Partneriaeth Penllyn. We heard a summary of what has been happening since set up about 4 years ago and what they are intending for the future. It is an exciting time for them as they are trying to set up with grant aid a centre so that the public can get, information and support and advice. Regarding speeding in the area of the bypass and Pensarn Road there will be equipment for measuring statistics of speed, however it is highly unlikely flashing 30 will be placed. There seems to be inconsistencies with the yellow lines as specified, Councillor Dilwyn Morgan to look into the matter on our behalf.